Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol

Future Generations Leadership Academy

# Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 2021-22

## Adroddiad Effaith

**Haf 2022**

**Diolchiadau** 2

August 2022

Awdur: Libbi Prestidge, UpRising

**Trosolwg** 4
Uchafbwyntiau 5
Heriau 5

**Effaith** 6
Crynodeb mewn ystadegau 6
Effaith lefel Sefydliadol/sectorol 6
Mentora o Chwith 8
Cynlluniau Gweithredu 8
Adborth 9
Datblygiad arweinyddiaeth unigol 10
Profiad ac adborth cyfranogwyr 12
Teithiau Cyfranogwyr 13
Cyfranogydd A 14
Cyfranogydd B 16

**Recriwtio a'r garfan** 18
Dadansoddiad carfan 18

**Cyflawni'r rhaglen** **19**
Modiwlau a chynnwys y rhaglen 19
Sesiynau unigol 21
Adeiladu cymuned 25
Llwyfannau cyfathrebu 26
Cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol 28
Dysgu 29

**Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr** 30

**Datblygiad rhaglen** 31
Ymarfer y pum dull o weithio 31

**Argymhellion ar gyfer rhaglenni'r dyfodol** 33
Noddwyr/codi arian 33
Recriwtio 33
Cwricwlwm 33
Cyflawni 34
Monitoro, gwerthuso, a dysgu 34

**Atodiadau** 35
Atodiad 1: Rhestr lawn o'r 25 sefydliad gyda chyfranogwyr ifanc 35
Atodiad 2: Rhestr lawn o'r Mentoreion o Chwith (uwch arweinyddion) 35
Atodiad 3: Rhestr lawn o hwyluswyr rhaglen a siaradwyr gwadd 36
Atodiad 4: Nodiadau grwpiau ffocws cymheiriad carfannau ôl-raglen 37

# Diolchiadau

Ni fyddai’r rhaglen hon wedi bod yn bosibl heb y cymorth rhyfeddol a gafwyd gennym gan rai unigolion a sefydliadau ardderchog.

David Alwen Williams, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru

Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

Andy Jones, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

Andy Middleton Grŵp TYF

Anna Humphrey, Dŵr Cymru

Anthony Hunt, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyngor Celfyddydau Cymru

Arup

BBC Cymru

Capital Law

Catherine Mealing-Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cerys Furlong, Chwarae Teg

Jane Davidson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Jane Hutt MS, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Jeremy Evas, Prosiect 2050, Llywodraeth Cymru

Jimmy Paul, Cynghrair Llesiant yr Alban

Jo Whitehead, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Jordan Doherty, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Katherine Trebeck, Cynghrair Economi Llesiant

Lyndsey Rawlinson, Cyfoeth Naturiol Cymru

Mike Corcoran, Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Prifysgol Glyndŵr

Cyfoeth Naturiol Cymru

Noel Mooney, Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Noreen Blanluet, Cyd-gynhyrchu Cymru

Sarah Rees, Oxfam Cymru

Shahinoor Alom, Cyngor Mwslimiaid Cymru

Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru

Shefali Sharma, Hyfforddydd ac Ymarferydd MBTI

Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Simon Williams, Prifysgol Caerdydd

Sion Griffiths, Dŵr Cymru

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Sue Husband, Busnes yn y Gymuned

Susie Ventris Field, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Tegryn Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Dr. Tolani Somoye, Cyngor Hil Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Costain | Olivia Hughes, Cyngor Sir y Fflint | Tony Smith, Cymdeithas Adeiladu'r Principality |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Paul Orders, Cyngor Caerdydd | Trafnidiaeth Cymru |
| Dafydd Gruffydd, Menter Môn | Peter Perry, Dŵr Cymru | Prifysgol De Cymru |
| Anabledd Wales | Phillipa Marsden, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | UpRising |
| Dr David Clubb, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Uzo Iwobi, Cyngor Hil Cymru |
| Dŵr Cymru/Welsh Water | Cyngor Hil Cymru | Valleys Kids |
| Gethin Morgan, Cyngor Sir Ynys Môn | Rhodri ap Owen, Camlas | Canolfan Mileniwm Cymru |
| Helen Goddard, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Ruth Marks, Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) |
| Huw David, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Sam White, Costain | Llywodraeth Cymru |
| Hywel Woolf, Costain | Sarah Hopkins, Cynnal Cymru | Wendy Walters, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Iain Mansfield, Cymdeithas Adeiladu'r Principality | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

# Diolch!

# 1. Trosolwg

Wedi deillio o un o flaenoriaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, i feithrin sgiliau, gwybodaeth a dysgu sy'n addas i sicrhau bod Cymru'n cyflawni'r 7 Nod Llesiant, mae Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhaglen ddatblygu arloesol a arweinir gan y Comisiynydd, Sophie Howe. Treialwyd y rhaglen rhwng Rhagfyr 2019 a Hydref 2020 ac fe'i cynhaliwyd eto rhwng Tachwedd 2021 a Mehefin 2022.

Roedd y rhaglen yn arloesol ac yn uchelgeisiol, ac mae'n parhau i fod felly, yn ei hymagwedd at ddatblygu arweinwyr ifanc ac, ar yr un pryd, sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ledled Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae dadansoddiad llawn o nodau ac amcanion y rhaglen ar gael i'w ddarllen yn Nhaflen Rhaglen 2021-22.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliad o'r dystiolaeth gynnar sy'n dangos effaith rhaglen 2021-22, yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy holiaduron gwaelodlin a therfynol cyfranogwyr, a chofnodion myfyrio misol cyfranogwyr unigol, a holiaduron adborth a roddwyd i Fentoreion o Chwith a rheolwyr llinell y cyfranogwyr.

Heb unrhyw raglen debyg o'i bath i wella gweithrediad y Ddeddf yng Nghymru, mae dadansoddiad cynnar o ddata effaith yn dangos effaith sylweddol a phwysig ar lefel sefydliadol a sectoraidd ledled Cymru, ynghyd ag awydd clir i ddatblygu a chyflawni rhaglen yr Academi ymhellach.

Ar y cyfan, hunan-adroddodd cyfranogwyr eu bod wedi gwella'n sylweddol ym mhob maes datblygu a osodwyd yn y canlyniadau dysgu, gan gynnwys Her; Cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y 5 Dull o Weithio); Dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y 7 nod llesiant); Sgiliau; Hyder; Rhwydweithiau; a Hunan ymwybyddiaeth.[1] Mae'r tueddiadau hyn yn adeiladu ar effaith rhaglen beilot yr Academi, lle gwelwyd datblygiadau arwyddocaol yn Hyder a gallu'r carfannau i Herio.

Mae dadansoddiad o'r data effaith sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn dangos bod yr Academi wedi dechrau adeiladu mudiad o arweinwyr ifanc, angerddol, sydd â chysylltiadau da ac unedig ledled Cymru. Dangosodd yr adroddiad hwn y potensial arwyddocaol sydd gan yr Academi i barhau i rymuso a rhoi momentwm i'r symudiad hwn, gan uwchsgilio a datblygu pobl ifanc y mae eu gwerthoedd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w cefnogi i swyddi arweinyddiaeth arwyddocaol yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r effaith sy'n amlwg o'r rhaglen Academi hon a'r cynllun peilot cyn hynny, yn addo cyflymiad cyffrous ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, gyda'r Academi yn chwarae rhan hollbwysig wrth sicrhau bod arferion, dealltwriaeth a chymhelliant ar gyfer y Ddeddf yn cael eu datblygu ar draws cenedlaethau o arweinwyr.

Mae blynyddoedd cynnar yr Academi, ochr yn ochr â mentrau pwysig eraill yng Nghymru megis Senedd Ieuenctid Cymru, wedi cyfrannu at sylfaen ar gyfer newid hirdymor i'r gwaith o lunio a darparu polisïau, gyda phobl ifanc yn ganolbwynt iddo. Mae'r Academi wedi rhoi caniatâd i bobl ifanc arwain - a dylai barhau i wneud hynny – ond hefyd wedi

[1] Dychwelodd 27 o gyfranogwyr yr arolwg cyn ac ar ôl y rhaglen ar gyfer dadansoddiad cymharol

rhoi caniatâd i arweinwyr edrych tuag at eu pobl ifanc a'u grymuso. Gyda datblygiad gofalus, ymgyfraniad arwyddocaol wedi cael ei annog gan bobl ifanc a sefydliadau partner, ac adnoddau effeithiol wedi'u dyrannu i'r Academi a Rhwydwaith y Cyn-fyfyrwyr, mae'n ymddangos bod yr Academi ar y trywydd iawn i wella'r modd y mae'n cyflawni effaith yn y blynyddoedd i ddod, gyda llawer o noddwyr a sefydliadau partner, a darpar arweinwyr ifanc. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r Academi ac i'w photensial i ymgysylltu ag arweinyddiaeth ieuenctid a dylanwadu arno ar lefel y DG a lefel rhyngwladol, lle gallai, a lle dylid annog carfannau presennol a dyfodol yr Academi a chyn-fyfyrwyr i ymuno â'r sgwrs fyd-eang am lunio polisïau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



*Uchod: Darlun grŵp o'r garfan gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe yn nigwyddiad Graddio'r Academi yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar 15fed Mehefin 2022.*

## Uchafbwyntiau

- Llwyddo i ddenu carfan o bobl ifanc amrywiol o bob rhan o Gymru, gyda 45% o'r garfan yn dod o'r tu allan i Gaerdydd.
- Cyflwyniad hybrid effeithiol o'r rhaglen gyda 100% o'r garfan yn ymgysylltu â'r Academi ar-lein drwy'r llwyfannau cyflawni digidol.
- Diddordeb cyson ac ymgysylltu'r garfan yn uchel, gyda 94% o'r rhai a gofrestrodd ar y rhaglen yn dal yn gyfranogwyr gweithredol hyd at raddio.
- Recriwtio 31 o Fentoreion o Chwith rhagorol sy'n cynrychioli'r uchaf-arweinwyr o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru.

### Heriau

- Roedd pandemig Covid-9 a rheolau cysylltiedig yn golygu nad oeddem yn gallu dod â'r garfan ynghyd wyneb yn wyneb yn ystod misoedd cynnar y rhaglen

(Tachwedd 2021 - Mawrth 2022), sy'n golygu mai
Ebrill 2022 oedd y tro cyntaf i'r garfan gyfarfod mewn man corfforol. Roedd hyn yn golygu, er bod y garfan wedi cael ei chefnogi i ddod i adnabod ei gilydd a chysylltu, iddi gymryd mwy o amser i hyn ddigwydd.

- Roedd modiwlau rhaglen yn cael eu datblygu'n barhaus yn ystod cyflwyno'r rhaglen oherwydd diffyg amser datblygu cyn i'r rhaglen ddechrau. Roedd hyn yn golygu nad oedd gwahanol fodiwlau'n gweithio mor ddi-dor ag y gallent petaent wedi digwydd ochr yn ochr â'i gilydd, ac ar adegau roedd y tîm a'r garfan yn wynebu her prinder amser (er enghraifft pan lansiwyd Mentora o'r Chwith a Chynlluniau Gweithredu, a hynny o fewn wythnosau i'w gilydd).

# 2. Effaith

**Crynodeb mewn ystadegau**

- **32** cyfranogydd
- Cynhaliwyd 27 o sesiynau dros 17 o ddigwyddiadau, gan gynnwys tua dwy sesiwn y mis a chwe diwrnod o gyflwyniad wyneb yn wyneb, gyda chyfanswm o 70 o oriau cyswllt
- **31** perthynas Mentora o Chwith
- 32 o Gynlluniau Gweithredu Cenedlaethau'r Dyfodol a ddechreuwyd gan gyfranogwyr yn ffocysu ar weithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn eu sefydliad neu gymuned
- 41 o hwyluswyr a siaradwyr gwadd yn cynrychioli 23 o wahanol sefydliadau

**Effaith lefel sefydliadol/sectorol**

Ar gyfartaledd, mae data'n dangos bod rhaglen Academi 2021-22 eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ac arwyddocaol ar lefel Cymru gyfan.

Casglwyd tystiolaeth o hyn mewn dau holiadur a anfonwyd at Uwch Arweinwyr a gymerodd ran yn y cynllun Mentora o Chwith fel rhan o raglen yr Academi, a rheolwyr llinell y cyfranogwyr a gymerodd ran yn y rhaglen:

- Dywedodd dros hanner y Mentoreion o Chwith (uwch arweinwyr yng Nghymru) bod cymryd rhan mewn Mentora o Chwith gyda'r Academi wedi gwella eu dealltwriaeth a/neu eu cymhwysiad o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu sefydliad;
- Dywedodd dros hanner y Mentoreion o Chwith (uwch arweinwyr yng Nghymru) bod cymryd rhan mewn Mentora o Chwith gyda'r Academi wedi gwella arweinyddiaeth yr uwch arweinydd ei hunan;
- Dywedodd 100% o reolwyr llinell y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr Academi bod cymryd rhan yn yr Academi wedi cefnogi arweinyddiaeth y cyfranogydd yr oeddent yn rheolwr llinell iddynt;
- Dywedodd 4 o bob 5 rheolwr llinell cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr Academi bod cymryd rhan yn yr Academi wedi gwella dealltwriaeth uniongyrchol eu tîm

o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, neu gymhwysiad ohoni, gyda rhai yn mynd ymlaen i rannu bod y gwelliant hwn eisoes yn cael ei weld ar lefel sefydliadol ehangach hefyd;

Ar wahân i ffrydiau ffurfiol y gallai'r Academi drwyddynt ddylanwadu ar ddatblygiad sefydliadol a sectoraidd ehangach yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, anogwyd cyfranogwyr o fewn y garfan hefyd i gymryd yr awenau i ysbrydoli ac arwain newid o fewn eu sefydliadau noddwyr a sefydliadau cartref. Mae rhai enghreifftiau o'r modd y cafodd hyn ei gyflwyno yn cynnwys cyfranogwyr yn cyflwyno ac yn rhannu yr hyn a ddysgasant o'r Academi gyda chydweithwyr ac arweinwyr trwy fewnwelediadau ysgrifenedig mewn cylchlythyrau i'r cwmni cyfan, cyflwyniadau a sgyrsiau â chydweithwyr a grŵp o gyfranogwyr a oedd ar Brosiect Cyflwyno Clwstwr Diwydiannol De Cymru yn cynnal adolygiad o'r Prosiect trwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Heb unrhyw raglen gyffelyb o'i bath yn gweithio i wella gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, mae'r canfyddiadau uchod yn dangos effaith sylweddol a phwysig. Mae canfyddiadau hefyd yn dangos awydd clir i ddatblygu a chyflwyno rhaglen yr Academi ymhellach, gyda 100% o'r rhai sy'n cael eu mentora o chwith yn dweud y byddent yn argymell arweinwyr eraill ledled Cymru i gymryd rhan mewn cynllun Mentora o Chwith tebyg. Yn yr un modd, dywedodd 100% o reolwyr llinell cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr Academi y byddent yn argymell rheolwyr eraill i annog arweinwyr ifanc yn eu tîm i gymryd rhan yn yr Academi.




*Uchod: Cynrychiolydd y garfan o Brifysgol De Cymru, Jia Wei Lee yn cyflwyno'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i grŵp o swyddogion gweithredol, cyfarwyddwyr, staff ac interniaid graddedig mewn cynhadledd Prifysgol De Cymru ym mis Gorffennaf 2022.*

## Mentora o Chwith

Mae 31 o gysylltiadau Mentora o Chwith wedi'u cynnal yn ystod rhaglen Academi 2021-22, gan ysbrydoli cydweithredu ar draws gwahanol sectorau a sefydliadau. Mae dadansoddiad yn dangos, diolch i'r Academi, bod unigolion a thimau ar draws sectorau Cymru, rhai ohonynt erioed wedi cysylltu o'r blaen, wedi cydweithio'n agosach i ddatrys problemau a datblygu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Profodd yr Academi wir ddiddordeb yn y cynllun gan uwch arweinwyr ledled Cymru gyda 12 Prif Weithredwr, 3 Chyfarwyddwr, 2 o swyddfeydd Comisiynwyr Cymru, 3 Arweinydd Elusen a 3 Arweinydd Cyngor wedi cymryd rhan. Mae rhestr lawn o rolau a sefydliadau ar gael yn yr atodiadau.

Profodd yr Academi gefnogaeth ardderchog i'r cynllun gan uwch arweinwyr Cymru a adroddodd eu bod yn gweld pwysigrwydd a manteision parhad y prosiect, gyda 100% o'r rhai a gafodd eu mentora o chwith yn dweud y byddent yn argymell arweinwyr eraill ledled Cymru i gymryd rhan mewn cynllun Mentora o Chwith tebyg a 94% yn dweud y byddent hwy eu hunain yn hoffi parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni Academi yn y dyfodol mewn rhyw ffordd. Gan adlewyrchu ar eu datblygiad eu hunain, dywedodd 3 o bob 4 o'r Mentoreion o Chwith hefyd eu bod yn teimlo bod y broses eisoes wedi gwella eu harweinyddiaeth eu hunain, ac yn yr un modd roedd 69%, dros ⅔, hefyd yn dweud bod cymryd rhan mewn Mentora o Chwith wedi gwella eu dealltwriaeth a/neu eu cymhwysiad o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. O'r lleill dywedodd llawer yn ddigymell mai'r rheswm nad oeddent wedi profi gwelliant yn eu dealltwriaeth oedd oherwydd bod ganddynt eisoes gyfoeth o wybodaeth a phrofiad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos themâu allweddol effaith cynllun Mentora o Chwith yr Academi 2021-22 i gynnwys:

- Uwch arweinwyr yn cael eu herio o ddifrif yn eu ffordd o feddwl yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Ysbrydolwyd uwch arweinwyr gan eu mentoriaid;
- Cafodd uwch arweinwyr fewnwelediad a gwybodaeth werthfawr am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Cynlluniau Gweithredu

Rhan greiddiol o raglen yr Academi yw datblygu Cynlluniau Gweithredu. Mae hyn yn digwydd ar ddiwedd y rhaglen ac mae'n ffocysu ar gefnogi cyfranogwyr i adeiladu ar, a gweithredu'r dysgu a ddatblygwyd drwy'r Academi i ysgogi newid yn eu sefydliadau neu yn eu cymunedau eu hunain. Ar hyn o bryd mae'r Academi wedi derbyn 5 Cynllun Gweithredu wedi'u cwblhau gan gyfranogwyr, gyda 5 arall wedi'u haddo gyda dyddiadau cwblhau penodol yn ystod y mis nesaf. Mae'r Academi yn parhau i gefnogi eraill ar draws y garfan i ddatblygu eu syniadau a'u Cynlluniau Gweithredu. Bydd y datblygiad hwn yn parhau wrth i gyfranogwyr symud i rwydwaith cyn-fyfyrwyr yr Academi.

Mae'r rhain yn ffocysu ar sefydliadau gan gynnwys Prifysgol De Cymru, Llywodraeth Cymru, Costain, Cyfoeth Naturiol Cymru, Capital Law a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r pynciau'n cynnwys:

- Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Sefydlu'r Gymraeg yn well
- Hyrwyddo tegwch a chynhwysiant unigolion o gymunedau amrywiol
- Datblygu "Strategaeth Ymaddasu Hinsawdd"

- Dywedodd 89% eu bod yn teimlo'n gyffrous am ddyfodol eu Cynllun Gweithredu
- Dywedodd 89% bod gweithio ar Gynllun Gweithredu yn caniatáu iddynt ymarfer y 5 Dull o Weithio
- Dywedodd 26% (dros chwarter) bod eu Cynllun Gweithredu eisoes wedi gwella gweithrediad y Ddeddf yn fy ngweithle/cymuned
- Dywedodd 93% bod gweithio ar Gynllun Gweithredu wedi gwella eu dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymarferol

**Adborth**

- Roedd 94% o'r Mentoreion o Chwith a ymatebodd yn rhannu bod eu profiad cyffredinol o Fentora o Chwith gyda'r Academi wedi bod yn 'Dda' neu'n 'Ardderchog'
- Dywedodd 100% o reolwyr llinell y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr Academi bod ganddynt ddigon o fewnwelediad i allu cefnogi cyfranogwyr pan oedd ei angen arnynt
- "*Roeddwn i eisiau i fy meddyliau gael eu herio, ac fe ddigwyddodd hynny, mewn ffordd gwbl gymwynasgar ac ystyriol*." Mentorai o Chwith Jo Whitehead, Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- *"Roedd hwn yn gyfle gwych i weithio gyda rhywun sydd wedi bod yn rhan o'r Academi Arweinyddiaeth ac i ddysgu oddi wrthynt. Mwynheais y profiad yn fawr ac fe helpodd fi i ddeall Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn well a sut y caiff ei chymhwyso'n ymarferol*." – Mentorai o Chwith, Sue Husband, Cyfarwyddwr BITC (Busnes yn y Gymuned) Cymru
- "*Roedd yn brofiad amhrisiadwy. Roedd cysylltu â rhywun mor frwd, sy'n gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud y byd yn lle gwell, ac sydd â chymaint o syniadau sy'n dechrau dwyn ffrwyth, yn fy atgoffa i beidio â cholli fy ysgogiad fy hun ac mae'r angerdd hwnnw mor angenrheidiol mewn arweinyddiaeth*" – Mentorai o Chwith, Jimmy Paul, Cyfarwyddwr, WEAll (Cynghrair Economi Llesiant), yr Alban
- "*Roedd y mentor o chwith a ddewiswyd i mi yn ymgysylltu'n dda, yn feddylgar ac yn adeiladol mewn dull heriol. Roedd wedi paratoi'n dda ar gyfer sesiynau, wedi ysgogi gwahanol ffyrdd o feddwl ac wedi fy ngalluogi i ystyried safbwyntiau a chamau gweithredu amgen ar y pynciau a drafodwyd*". Mentorai o Chwith – Sian Harrop-Griffiths, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Rwyf wedi elwa o arweiniad a chefnogaeth fy mentor. Gwnaeth ei fewnwelediad a'i wybodaeth o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol argraff fawr arnaf a hefyd ei ffocws ar atebion ynni cynaliadwy sydd ar flaen y gad, a'i botensial i chwarae rôl arweiniol yn ei faes arbenigedd. Mae wedi amlygu i mi faint y gall uwch arweinwyr ei ddysgu gan weithwyr proffesiynol ifanc sy'n barod i helpu i

drawsnewid y diwydiannau a chymdeithas yn y dyfodol" Mentorai o Chwith - Paul Orders, Prif Weithredwr, Cyngor Caerdydd

- "*Roedd ymagwedd [cyfranogydd] at ei hamser yn yr Academi yn frwdfrydig a phwrpasol ac roeddwn yn teimlo ei bod yn cael cefnogaeth dda yn ei hymdrechion. Mae hi wedi gallu gwneud cysylltiadau gwerthfawr â chymheiriaid ar draws sectorau, sydd bellach o fudd iddi hi a'i thîm, ac mae'n teimlo'n gyffrous wrth droi ei chynllun gweithredu yn realiti*" - (rheolwr llinell) Sebastian Hains, Pennaeth Cyfryngau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru
- "*Gallaf weld sut mae cymryd rhan yn yr Academi wedi rhoi hwb i'w hyder yn enwedig y gweithgareddau personol a mentora o chwith, sydd wedi bod yn wych o ran adeiladu ei hyder a'i pharatoi ar gyfer y radd nesaf. Llwyddodd yn hyderus i reoli ei llwyth gwaith prysur iawn ochr yn ochr â'r Academi ac mae'n amlwg ei bod wedi mwynhau'n fawr*" - (rheolwr llinell) Cynthia Robins, Ysgrifennydd Preifat, Llywodraeth Cymru
- "*Rwy'n meddwl mai'r her fwyaf oedd cefnogi'r person ifanc i gredu yn ei alluoedd a'i gefnogi mewn perthynas â phryderon ynghylch bod yn "ddigon da". Rwy'n meddwl bod y ffordd y cafodd yr academi ei darparu wedi rhoi cyfle i gwrdd â phobl newydd ac wedi galluogi llawer iawn o dwf personol yn ymwneud â hunangred a gwerth personol.*" - (rheolwr llinell) Paula Hardy, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Arweinydd Strategol – Pobl Agored i Niwed a Dioddefwyr



*Uchod: Cinio cynrychiolwyr gydag aelodau o garfan yr Academi a Gweinidog Gwladol Baden-Wüttemberg, Dr Florian Stegmann i drafod pwysigrwydd llais ieuenctid wrth wneud penderfyniadau a rhannu syniadau ar gynaliadwyedd a phrofiadau cyfranogwyr ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

## Datblygiad arweinyddiaeth unigol

*Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth yng ngwelliant cyfranogwyr ar draws amcanion allweddol rhaglen yr Academi.*

*Allweddol:*

- **% yn gweld gwelliant -** *mae'r ffigurau hyn yn dangos canran y garfan a ddangosodd rywfaint o welliant yn y maes theori newid cyfatebol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw lefel o welliant, er enghraifft unigolion y gwnaeth eu hatebion i gwestiwn newid o anghytuno'n gryf i gytuno'n gryf, a hefyd unigolion y gwnaeth eu hatebion i gwestiwn newid o gytuno i gytuno'n gryf, neu fel arall unrhyw un y newidiodd eu hatebion o anghytuno'n gryf i anghytuno.*
- **% yr ymateb cadarnhaol cyn cymryd rhan yn y rhaglen** - *mae'r ffigurau hyn yn dangos canran y garfan a ymatebodd yn gadarnhaol i gwestiwn yn ymwneud â'r maes theori newid cyn cymryd rhan yn y rhaglen (er enghraifft, gan ddweud eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).*
- **% yr ymateb cadarnhaol ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen** - *mae'r ffigurau hyn yn dangos canran y garfan a ymatebodd yn gadarnhaol i gwestiwn yn ymwneud â'r maes theori newid ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen (er enghraifft, gan ddweud eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).*
- **Cynnydd Pwynt Canran mewn ymateb cadarnhaol** - mae'r ffigurau hyn yn dangos y cynnydd pwynt canran mewn ymatebion cadarnhaol - y gwahaniaeth rhwng y ddwy golofn flaenorol.
- **Cynnydd % ar gyfartaledd** - mae'r ffigurau hyn yn dangos y cynnydd cyfartalog yn y maes theori newid ar gyfer cyfranogwr rhaglen unigol. Er enghraifft, fe wnaeth pob cyfranogydd wella eu lefelau hyder ar gyfartaledd o 48%.

| Thema Theori Newid | % yn gweld gwelliant | % ymateb positif cyn cymryd rhan | % ymateb positif ar ôl cymryd rhan | Pwynt Canran - cynnydd mewn ymateb positif | Cynnydd % ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Her** | 67% | 37% | 75% | 39% | 41% |
| **Cymhwyso** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). | 60% | 47% | 70% | 23% | 36% |
| **Deall** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 59% | 40% | 68% | 28% | 31% |
| **Sgiliau** | 57% | 50% | 71% | 22% | 38% |
| **Hyder** | 54% | 60% | 88% | 28% | 48% |
| **Rhwydweithiau** | 49% | 59% | 76% | 17% | 33% |
| **Hunan ymwybyddiaeth** | 39% | 58% | 72% | 14% | 20% |


*Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.*

**Ar gyfartaledd, gwnaeth ymatebwyr i'r arolwg hunan-adrodd y gwahaniaethau canlynol:**

- Dywedodd 92% eu bod bellach yn gwybod ble i gyrchu gwybodaeth am bolisi ac arfer da ar bob un o'r saith nod llesiant yng Nghymru, gyda 68% wedi profi gwelliant yn eu gallu i wneud hyn
- Mae 96% yn gadael y rhaglen yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i egluro pwrpas a gwaith y Ddeddf i gydweithwyr a'u cymuned, gyda 76% wedi profi gwelliant yn eu gallu i wneud hyn
- Mae 96% o'r garfan yn gadael y rhaglen gan ddweud eu bod yn dda am ddechrau sgyrsiau ag eraill o gefndiroedd gwahanol, gyda 72% o'r garfan yn profi gwelliant yn eu gallu i ymarfer Ymagwedd Tegwch yn eu gwaith a 96% yn teimlo eu bod yn deall y modd y mae hyn yn fraint iddynt hwy eu hunain
- Mae 88% yn gadael y rhaglen yn teimlo'n hyderus wrth herio ffyrdd traddodiadol o weithio yn eu gweithle neu gymuned, gydag 88% bellach hefyd yn teimlo y gallant herio eu cydweithwyr, ac 80% yn teimlo y gallant herio penderfyniadau sydd eisoes wedi'u gwneud yn eu gweithle neu gymuned
- Dywedodd 80% eu bod yn awr yn teimlo y gallent herio'r rhai oedd yn uwch na nhw, gyda 76% yn gweld gwelliant yn y maes hwn
- Mae 96% o'r garfan yn gadael y rhaglen gan ddweud bod eu rhwydwaith yn cynnwys pobl o ystod amrywiol o sectorau a chefndiroedd gwahanol, gyda 100% o'r garfan yn dweud eu bod bellach yn teimlo bod Arweinyddiaeth "yn ymwneud â datblygu eraill".

**Profiad ac adborth cyfranogwyr**

- Mae 100% o'r garfan hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau canlynol:
  - Mwynheais gymryd rhan yn y rhaglen;
  - Mae'r rhaglen wedi bod o fudd i'm datblygiad proffesiynol;
  - Hoffwn ymgyfrannu mewn cyfleoedd yn y dyfodol gyda rhwydwaith y Cyn-fyfyrwyr;
  - Roedd tîm y rhaglen yn garedig ac yn gefnogol
- *"Rhoddodd yr Academi'r rhyddid creadigol i mi greu a gweithredu newid yn fy sefydliad ar lefel na fyddai wedi bod yn bosibl hebddo".*
- *Yn fy mywyd proffesiynol a phersonol, mae fy mhersbectif ar bopeth wedi newid - rydw i nawr yn cael fy hun bob amser yn cwestiynu, yn herio, ac yn edrych i wella pethau er llesiant y rhai o'm cwmpas a'r blaned. Ni allaf ddiolch digon i'r tîm am yr effaith gadarnhaol y maen nhw, a'r rhaglen hon, wedi'i chael arnaf a'r ffordd rwy'n gweld y byd."*
- *"Fe wnaeth fy helpu i ddatblygu rhwydwaith o bobl ifanc angerddol o ystod o feysydd y gallaf ddibynnu arnynt i gael persbectif mwy cyflawn ar bynciau amrywiol."*
- *"Rhoddodd yr academi deulu newydd i mi y gallwn ddibynnu arno, gyda'r rhai â gweledigaeth i gyd yn gweithio tuag at y daioni mwyaf nad oeddwn erioed wedi'i ddisgwyl. Rhoddodd i mi ffydd ynof i fy hun a'r bobl o'm cwmpas i fod yn fwy ymwybodol wrth wneud penderfyniadau a hyrwyddo pethau ar gyfer y hirdymor.*
- *Teimlaf fod gennyf lawer gwell dealltwriaeth yn awr o'r modd y gallai darpariaeth fy sefydliad ddylanwadu ar feysydd sydd y tu allan i'n prif ffocws. Rwyf mewn lle llawer gwell yn awr i weithio gyda sefydliadau eraill i sicrhau canlyniadau mewn ffordd sy'n gydweithredol."*




Uchod*: Ciplun o weithgaredd yn archwilio amrywiaeth y geiriau a ddefnyddiodd cyfranogwyr o fewn y garfan i siarad am eu hunaniaeth yn ystod sesiwn ar-lein.*

## Teithiau cyfranogwyr

Themâu allweddol:

- **Bod yn awr yn rhan o rywbeth 'mwy'**
- Cael eu gwneud i deimlo eu bod yn 'perthyn'
- Wedi eu hysbrydoli gan y siaradwyr a hwyluswyr gwadd ar y rhaglen
- Profwyd llawer o 'fomentau bach ond arbennig' gan gyfranogwyr drwy gydol y rhaglen. Maent yn cynnwys:
    - Datblygiad personol oherwydd amrywiaeth y garfan a gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd a hwyluswyd gan yr Academi i gyfarfod a chysylltu â chymaint o wahanol bobl ifanc –datblygu a dysgu oddi wrth ei gilydd
    - Gwylio'i gilydd yn datblygu mewn hyder
    - Dod yn fwy hunanymwybodol
    - Cyfarfod ac ennill mewnwelediad oddi wrth yr Academi a thîm ehangach Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
    - Sesiynau dysgu (Clywed ei gilydd yn cyflwyno eu bywydau/profiadau/prosiectau/angerdd.)
    - Teimlad o optimistiaeth/ennill grym ar gyfer dyfodol mwy disglair
    - Clywed ochr 'ddynol' rhai o uwch arweinwyr Cymru yn ystod rhyngweithio gyda nhw

Yn ystod eu hamser gyda'r Academi, gwahoddwyd y cyfranogwyr i gwblhau Cofnod Myfyrio Misol unigol. Roedd y logiau hyn yn cynnig dull ffurfiol i gyfranogwyr fyfyrio'n unigol ar eu taith gyda'r Academi, gyda logiau'n cael eu hanfon ar ddiwedd pob mis yn gofyn cwestiynau, gydag atebion blwch testun i gyfranogwyr eu cwblhau, fel y dangosir yn y ddelwedd isod.

**Ydych chi wedi profi unrhyw 'eiliadau bach ond arbennig' hyd y mis yma? /**
**Have you experienced any 'small but special moments' this month?**
*

'Eiliadau bach ond arbennig' - efallai mai'r rhain yw'r caredigrwydd a ddangosodd rhywun ichi; yr amser a roesoch i rywun arall; gweithgaredd yr Academi y gwnaethoch chi wirlawenydd ynddo; neu'r enghraifft a barodd ichi wenu./'Small but special moments' - these might be the kindness someone showed you; the time you gave someone else; the Academy activity you took real joy in; or the example that made you smile.

Roedd y cwestiynau olaf yn gofyn i'r cyfranogwyr fyfyrio ar sut yr oeddent yn teimlo mewn perthynas â'u harweinyddiaeth hwy eu hunain y mis hwnnw mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel y dangosir yn y ddelwedd isod.

**Ar raddfa 1 - 5, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo fel eiriolwr dros Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?** / On a scale of 1 - 5, how confident do you feel being an advocate for the Well-Being of Future Generations Act?
*

- **1 - Hyderus iawn** / Very confident
- **2 - Hyderus** / Confident
- **3 - Braidd yn hyderus** / Somewhat confident
- **4 - Ddim yn hyderus iawn** / Not very confident
- **5 - Dim hyder** / No confidence

**Submit**

Mae'r ddwy astudiaeth achos isod yn rhoi cipolwg o deithiau unigol dau o gyfranogwyr yr Academi. Mae'r dyfyniadau a ddarperir yn ddetholiadau a gasglwyd o Gofnodion Myfyrio Misol y cyfranogwyr:

### Cyfranogydd A

Yn ystod y misoedd cyntaf pan oedd yr Academi yn anelu at gyflwyno cyfres o weithdai gosod cyd-destun lle gwnaeth cyfranogwyr gyfarfod â'r Comisiynydd ac amrywiol aelodau o'i thîm, bu Cyfranogydd A yn myfyrio'n fanwl ar sut roedd y rhaglen yn dechrau annog ei dulliau o feddwl am y gwahanol Nodau Llesiant, gan nodi "yn dilyn ail hanner Ted Talk' gan Sophie hoffwn ddysgu mwy am sut mae'r Ddeddf yn llunio polisi yng

Nghaerdydd. Rwy'n byw yng Nghaerdydd ac mae Ansawdd
Aer yn broblem fawr i mi felly rwy'n teimlo'n chwilfrydig ynglŷn â dysgu mwy am y polisi y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei llunio yno. Byddai hefyd yn ddiddorol dysgu sut mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi llunio unrhyw bolisïau y tu allan i Dde Cymru."

Drwy gydol ei myfyrdodau misol, bu'r cyfranogydd yma hefyd yn myfyrio ar ei phrofiadau llai ffurfiol, gan rannu, fel y gwnaeth llawer o rai eraill hefyd yn eu myfyrdodau, yr eiliadau llai o gysylltiad a theimlad a wnaeth eu profiad gyda'r Academi yn arwyddocaol iddynt: "digwyddodd moment fach ond arbennig yn y sesiwn ar 26/01 pan oedd pawb yn mwynhau cerddoriaeth Disney. Rwy'n meddwl bod sioeau cerdd a cherddoriaeth Disney yn wych ac roeddwn wrth fy modd gyda''r ffaith bod llawer o bobl yn y garfan yn amlwg yn teimlo'r un peth ac yn amlwg yn cyd-ganu (tra wedi gwasgu'r botwm 'mud') i mewn i'w camerâu. Dim ond eiliad fach oedd hi ond fe wnaeth i mi deimlo llawenydd a chyffro wrth gwrdd â phawb (a chael cyfle i gyd-ganu!)"

Roedd y cyfranogydd yma hefyd yn feddylgar am eu myfyrdodau am y sesiynau sgiliau a gwerthoedd a gyflwynwyd gan UpRising, gan rannu'r datganiad: "yn ystod y sesiwn eiriolaeth roedd yn rhaid i ni ateb "ie/na" i'r holl gwestiynau ar fraint. Teimlais gymysgedd rhyfedd o emosiynau ar ôl darganfod fy mod wedi sgorio'r sgôr uchaf posib – cymysgedd o euogrwydd a sioc. Daeth y foment fawr pan ddechreuon ni drafod eiriolaeth a sylweddolais y gallwn ddod yn eiriolydd dros y rhai llai breintiedig. Roedd yn foment oleuedig yn dangos pa mor freintiedig yr wyf wedi bod a sut y gallaf wneud llawer mwy i ddefnyddio fy mraint i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i eraill." Gellir ystyried y math hwn o fyfyrio fel yr Academi yn cael effaith arwyddocaol ar unigolion o fewn y garfan, gan ei fod yn awgrymu newid ym meddylfryd ac ymddygiad y cyfranogydd a fyddai wedyn yn trosi i ddylanwadu nid yn unig ar eu harweinyddiaeth eu hunain ond ar arweinyddiaeth eraill o'u cwmpas.

Yn dilyn diwrnodau'r Academi i ffwrdd yn Wrecsam ym mis Ebrill 2022, rhannodd y cyfranogydd yma, yn frwd, yr effaith yr oedd bod yn rhan o garfan mor amrywiol yn ei gael arnynt: "Roedd cyfarfod â phobl ifanc, talentog ac o'r un anian yn rhoi gobaith gwirioneddol i mi y gall Cymru ymdopi â'r heriau sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. I mi, moment fwyaf Wrecsam oedd y sesiwn Gymraeg – roedd y ffordd y bu i ni rannu ein profiadau - a fydd yn awr, gobeithio, yn sicrhau newid yn yr ardal honno, yn anhygoel." Yma gallwn weld, hyd yn oed cyn cyrraedd hanner ffordd drwy'r rhaglen, bod y garfan yn cysylltu ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd mewn ffordd arwyddocaol. Fe wnaethant hefyd rannu hynny, er eu bod mewn grŵp mor amrywiol, "Roeddwn i mor falch o deimlo fy mod yn perthyn yno ac mae hynny wedi bod yn hwb enfawr i fy hyder."

Yn eu log myfyrio terfynol, edrychodd y cyfranogydd yma yn ôl ar eu taith Academi ac ystyried yr effaith a gafodd y rhaglen arnynt: "Mae wedi fy ysbrydoli i herio'r norm, i fod y newid rwyf am ei weld, ac o leiaf i ddechrau bwrw ati. Wrth edrych yn ôl i'r adeg y dechreuais Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, gallaf weld yn bendant sut yr wyf wedi datblygu'n hyderus ynghylch Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol a sut y gellir ei defnyddio/ei rhoi ar waith."

Dangosodd Cyfranogydd A hefyd ddatblygiad clir a pharhaus yn eu harweinyddiaeth eu hunain, gyda'u hatebion misol i'r cwestiwn yn gofyn a oedd cynnwys Academi'r mis hwnnw wedi gwella eu taith arweinyddiaeth yn nodi eu bod yn 'Cytuno' neu'n 'Cytuno'n

Gryf' bob tro. Roedd y datblygiad nodedig hwn hefyd yn amlwg yn atebion Cyfranogydd A i'r cwestiwn yn gofyn pa mor hyderus yr oeddent yn teimlo fel eiriolydd i'r Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol gyda'u hatebion misol yn mynd o 3 ar ddechrau'r rhaglen, i 5 erbyn diwedd y rhaglen, ar y raddfa hyder, lle'r oedd 1 = dim hyder a 5 = hyderus iawn.

**Cyfranogydd B**

Yn ystod y misoedd cyntaf pan mai nod yr Academi oedd cyflwyno cyfres o weithdai gosod cyd-destun lle cyfarfu cyfranogwyr â'r Comisiynydd ac amrywiol aelodau o'i thîm, adlewyrchodd Cyfranogydd B mai'r "foment fwyaf" iddynt oedd "clywed am Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol gan Sophie" a'u bod "wedi rhyfeddu at faint o waith sy'n mynd ymlaen y tu ôl i'r llenni i sicrhau newid".

Dywedodd myfyrdod cynnar arall "byth ers dechrau'r Academi, rwy'n llawer mwy chwilfrydig am y materion amrywiol yr ydym yn eu hwynebu mewn cymdeithas; yn meddwl yn gyson am ddulliau o ddatrys problemau ac rwyf hefyd wedi defnyddio'r sgil yma yn fy ngwaith. Rwyf hefyd wedi dod yn fwy hyderus wrth siarad â phobl o gefndiroedd proffesiynol gwahanol." Mae'r myfyrdod hwn yn gyson ag un o'r themâu allweddol sy'n deillio o'n dadansoddiad o ddata effaith cyfranogwyr, lle gwnaeth aelodau unigol o'r garfan brofi gwelliant sylweddol yn eu cymhelliant a'u hysbrydoliaeth i wneud newid yn y byd o'u cwmpas, a'u hyder a'u gallu i weithio'n effeithiol gyda gwahanol bobl.

Mae eu myfyrdodau ar ddatblygiad eu gwybodaeth a sgiliau yn cyd-fynd yn agos ag amserlen y rhaglen, er enghraifft, wrth fyfyrio ar y mis y cyfarfu'r garfan â'r Dirprwy Gomisiynydd Marie Brousseau-Navarro ar gyfer sesiwn benodol yn ymwneud â phwerau deddfwriaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fe wnaethant rannu: "Wrth ddysgu am faint o ddeddfwriaeth sy'n sail i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, rwyf wrth fy modd bod yr adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ffeithiol ac yn sail i rai o ganllawiau'r Cenhedloedd Unedig."

Thema drwy gydol cofnodion myfyrio'r cyfranogydd yma, o'r cofnodion cynnar hyd at y cofnod terfynol, oedd eu bod yn teimlo'n rhan o 'rywbeth mwy' - "Roeddwn yn sylweddoli fy mod bellach yn rhan o rywbeth llawer mwy, rhywbeth sy'n bwysig. Rwy'n ddiolchgar iawn i fod yn rhan o'r Academi."

Wrth i'r rhaglen symud ymlaen i'r sesiynau uwchsgilio a gweithdai, daeth angerdd y cyfranogydd yma i rannu eu dysgu a dod yn eiriolwyr dros Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fwy amlwg: "Rwyf eisiau medru rhannu fy ngwybodaeth ac addysgu pobl am y Ddeddf. Felly mae angen i mi neilltuo'r amser sy'n ymchwilio'n wirioneddol i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a sut y gellir ei chymhwyso i fy maes gwaith a thu hwnt." Disgrifiwyd eu profiad o ddydd i ddydd fel un cadarnhaol, gan rannu bod "y tîm sy'n gofalu amdanom ac sy'n ein haddysgu wedi bod yn gefnogol iawn ac yn llawn gwybodaeth. Mae hynny wedi ei gwneud hi'n haws setlo i mewn."

Wrth i'r Gwanwyn gyrraedd ac wrth i'r Academi gychwyn ar yr elfen Mentora o Chwith o'r rhaglen, rhannodd y cyfranogydd yma eu cyffro a'u profiadau cynnar cadarnhaol o'r cynllun, gan ddisgrifio'r broses fel "taith hynod ddiddorol" a rhannu'r optimistiaeth a'r

grymuso yr oedd y cyfle wedi'i roi iddynt: "Fel y gallwch chi fod yr un mor ysbrydoledig waeth pa mor 'fach' ydych chi'n meddwl ydych chi."

Roedd eu myfyrdodau'n dangos yn rheolaidd eu hysbrydoliaeth a'u cymhelliant i barhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o bynciau'r rhaglen y tu hwnt i'r sesiynau a gyflwynwyd gan yr Academi, er enghraifft "yr wythnos ddiwethaf darllenais adroddiad llawn Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac roedd yr ystadegau'n agoriad llygad. Mae bod yn rhan o'r academi hon yn fy helpu i wneud gwell penderfyniadau ym mhob agwedd ar fywyd." Yma hefyd gellir gweld yn amlwg yr effaith bersonol y gallai'r Academi ei chael ar gyfranogwyr unigol, wrth i lawer fyfyrio ar ddod â gwerthoedd ac arferion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w bywydau personol yn ogystal â mannau proffesiynol.

Fel Cyfranogydd A, dangosodd Cyfranogydd B hefyd ddatblygiad clir a pharhaus yn eu harweinyddiaeth eu hunain, gyda'u hatebion misol i'r cwestiwn yn gofyn a oedd cynnwys Academi'r mis hwnnw wedi gwella eu taith arweinyddiaeth yn nodi 'Cytuno'n Gryf' bob tro. Roedd y datblygiad nodedig hwn hefyd yn amlwg yn atebion Cyfranogydd B i'r cwestiwn yn gofyn pa mor hyderus yr oeddent yn teimlo fel eiriolydd i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda'u hatebion misol yn mynd o 3 ar ddechrau'r rhaglen, i 5 erbyn diwedd y rhaglen, ar y raddfa hyder, lle'r oedd 1 = dim hyder a 5 = hyderus iawn.



*Uchod: Aelodau'r garfan yn cymdeithasu ac yn myfyrio yn swyddfeydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghaerdydd yn dilyn digwyddiad olaf y rhaglen ym mis Mehefin 2022.*

# 3. Recriwtio a'r garfan

**Roedd strategaeth recriwtio'r Academi yn cynnwys tair elfen:**

- 14 o gyfranogwyr wedi'u cynnig a'u noddi gan sefydliadau partner (roedd un ohonynt, Llywodraeth Cymru, wedi cynnig 6 o gyfranogwyr i gymryd rhan)
- Recriwtiwyd 3 cyfranogydd trwy sefydliadau trydydd sector a noddir gan yr Academi
- Recriwtiwyd 11 o gyfranogwyr drwy broses ymgeisio agored Cymru gyfan


Isod wele fanylion am y nifer o unigolion a ymgysylltodd â gwahanol gamau o'r broses recriwtio agored.

| Ceisiadau | Cyfweliadau Fideo | Cyfweliadau 1:1 | Cychwynnwyd | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|---|
| 83 | 57 | 16 | 11 | 11 |

## Dadansoddiad Carfan

- Benyw (18); Gwryw (11); Anneuaidd (1); Gwell gennyf beidio â dweud (2)
- Roedd y cyfranogwyr yn siarad cyfanswm o 13 o wahanol ieithoedd, gan gynnwys 10 cyfranogydd a nododd eu bod yn siarad Cymraeg
- Roedd amrywiaeth cefndiroedd y cyfranogwyr yn cynnwys unigolion a nododd eu bod yn Wyn Seisnig, Gwyn Cymreig, Gwyn Prydeinig; Du Affricanaidd; Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; Bangladeshi; Ffilipinaidd; Tamil Sri Lancaidd; Tseiniaidd; Indiaidd; Pacistanaidd; gyda 28% o gyfranogwyr yn nodi eu bod yn Ddu neu o Leiafrifoedd Ethnig
- Dywedodd 15 o gyfranogwyr nad oedd un o'u rhieni wedi mynychu Prifysgol
- Cafodd yr holl gyfranogwyr, ac eithrio'r rhai a fynychodd ysgol y tu allan i'r DG, eu haddysg mewn ysgolion a redir gan y wladwriaeth yn y DG neu ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth
- Nodwyd 10 fel LGBTQ+, gan gynnwys cynrychiolaeth o'r gymuned drawsrywiol
- Nododd 3 eu bod yn anabl a 5 bod ganddynt anghenion ychwanegol neu wendidau
- Roedd yna hefyd gynrychiolaeth o'r rhai sy'n gadael gofal ac unigolion â chyfrifoldebau gofalu gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu am blentyn neu blant ac oedolyn; cyfrifoldebau gofalu am blentyn neu blant; a Chyfrifoldebau gofalu am oedolyn

*Isod gweler nifer y cyfranogwyr oedd yn cynrychioli gwahanol ranbarthau ledled Cymru.*




# 4. Cyflawni'r Rhaglen

## Modiwlau a chynnwys y rhaglen

| Modiwl | Amserlen | Manylion/amcanion |
|---|---|---|
| **Adeiladu gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Tachwedd - Ionawr | Derbyniodd y cyfranogwyr hyfforddiant ar y Ddeddf, sut mae'n gweithio a sut y gallant ei chymhwyso trwy ymgysylltu â thîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y themâu'n cynnwys sut mae tîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gweithredu, deddfwriaeth a phwerau'r Ddeddf a chyd-destun ehangach pŵer a pholisi yng Nghymru. |
| **Datblygu sgiliau Arweinyddiaeth** | Ionawr - Mai | Cyfres o weithdai rhyngweithiol ac ymarferol oedd yn ffocysu ar feithrin y sgiliau sydd eu hangen i arwain ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Roedd y themâu'n cynnwys gweithio gyda phobl o wahanol gefndiroedd, deallusrwydd emosiynol ac empathi, cydnerthedd, eiriolaeth, cyfathrebu a rheoli prosiectau ar gyfer datblygu cynaliadwy. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynlluniau gweithredu unigol** | Ionawr - Mai | Tywyswyd y cyfranogwyr trwy broses o ganfod ac yna ddatblygu cynllun i gyflawni newid cadarnhaol yn eu sefydliad, sector neu gymuned yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gyda chefnogaeth Ysgogwyr Newid Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, anogwyd unigolion i ddefnyddio fframwaith yr Academi ar gyfer prosiectau Cenedlaethau'r Dyfodol a rhoi eu sgiliau a'u gwybodaeth newydd ar waith. |
| **Mentora o chwith** | Chwefror-Mehefin | Gwelodd yr elfen arloesol hon o'r Academi ni'n troi'r broses fentora draddodiadol wyneb i waered. Cafodd y cyfranogwyr eu huwchsgilio mewn mentora a dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau 1:1 i baratoi ar gyfer cael eu paru â Phrif Swyddog Gweithredol presennol yng Nghymru y buont wedyn yn gweithio gydag nhw ar sail 1:1 i archwilio diwylliant sefydliadol ac atebion gweithdy i heriau a wynebir gan sefydliad eu Prif Swyddog Gweithredol. |
| **Arweinyddiaeth ar waith** | Mawrth – Mehefin | Cyfres o sesiynau i feithrin gwybodaeth a mewnwelediad trwy ddysgu o arbenigedd a phrofiadau arweinwyr datblygu cynaliadwy presennol o fyd datblygu cynaliadwy. |
| **Graddio** | Mehefin | Daeth y rhaglen i ben gydag arddangosfa o waith a phrofiadau'r cyfranogwyr gyda digwyddiad graddio ffurfiol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru Bae Caerdydd gyda siaradwyr gwadd yn cynnwys Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, Andrew Goodall a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe. |
| **Ymunwch â'r Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr** | Mehefin - Gorffennaf | Ar ôl cwblhau rhaglen yr Academi, mae'r garfan ar hyn o bryd yn cael eu croesawu i Rwydwaith Cyn-fyfyrwyr yr Academi. Mae un o dasgau cyntaf y grŵp yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer recriwtio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru nesaf. |




*Uchod: Y garfan yn Wrecsam yn dilyn diwrnod o wrando ar Gyrff Cyhoeddus yn son am y modd y maent yn gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.*

## Sesiynau unigol

Gweler isod ein hamserlen rhaglen, gan gynnwys dadansoddiad o'r sesiynau unigol a ddarparwyd ynghyd â manylion yr hwyluswyr gwadd a'r siaradwyr

| Dyddiad | Sesiwn | Hwyluswyr a siaradwyr gwadd |
|---|---|---|
| 17/11/21 | **Cyflwyniad i'r Academi** | Tîm cyflawni craidd: **Jonathan Tench**, Ysgogydd Newid Partneriaethau a Rhwydweithiau Rhyngwladol; **Najma Hashi**; Cymorth i Ysgogwyr Newid, **Libbi Prestidge**, Uwch Swyddog Datblygu Rhaglenni, UpRising; **Nisani Gnanasoorian**, Swyddog Darparu Rhaglenni, UpRising; **Meghan Causer**, Uwch Swyddog Darparu Rhaglenni, UpRising. |
| 24/11/21 | **Cwrdd â'r Comisiynydd a Chyn-fyfyrwyr** | **Sophie Howe**, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; **Emily-Rose Jenkins**, Cyn- |

| | | |
|---|---|---|
| | | fyfyrwyr yr Academi; **Dan Tran**, Cyn-fyfyrwyr yr Academi |
| 08/12/21 | **Gwaith a rolau Tîm y Comisiynydd** | Aelodau tîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: **Heledd Morgan** Arweinydd Ysgogi Newid; **Jacob Ellis**, Arweinydd Ysgogi Newid: Materion Cyhoeddus a Rhyngwladol; Dominic Francis, Cyfathrebu Digidol, **Eurgain Powell**, Ysgogydd Newid; **Eleri Williams**, Cyfartaledd; **Sandy Clubb**, Artist Ymgyfrannu; **Christian Servini,** Ysgogydd Newid |
| 11/01/21 | **Deddfwriaeth a Phwerau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | **Marie Brousseau-Navarro** Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd |
| 26/01/22 | **Myfyrdodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Cynnwys wedi ei ddarparu gan Uprising |
| 09/02/22 | **Dylanwadu ar Arweinyddiaeth a Mentora o Chwith** | Cynnwys wedi ei ddarparu gan Uprising |
| 23/02/22 | **Braint ac Eiriolaeth** | Cynnwys wedi ei ddarparu gan Uprising |
| 09/03/22 | **Cyd-gynhyrchu** | **Noreen Blanluet**, Cyd-gynhyrchu Cymru |
| 17/03/22 | **Arweinyddiaeth ar waith gyda Jane Hutt AS**<br><br>**Hunan Reolaeth a Chydnerthedd** | **Jane Hutt MS**, Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol<br><br>Cynnwys wedi ei ddarparu gan Uprising |
| 23/03/22 | **Gweithredu ar Waith gyda Katherine Trebeck**<br><br>**Cyflwyniad i Gynlluniau Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | **Katherine Trebeck**, cyd-sylfaenydd y Gynghrair Economi Llesiant<br><br>Cynllun Gweithredu wedi ei ddarparu gan UpRising |
| 07/04/22 - 09/04/2022 | **Sesiwn breswyl yn Wrecsam yn cynnwys:**<br>• **Arweinyddiaeth mewn gwlad ddwyieithog**<br>• **Rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**<br>• **Cyfoeth Naturiol** | **Jeremy Evans**, Pennaeth Prosiect 2050, Llywodraeth Cymru<br><br>**Olivia Hughes**, Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint, **Helen Goddard**, Rheolwr Treftadaeth a Diwylliant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; **Gethin Morgan**, Rheolwr Busnes a Rhaglen, Cyngor Sir Ynys Môn<br>**Mike Corcoran**, Rhwydwaith Cyd- |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cymru a gweithrediad y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng nghyd-destun Gogledd Cymru**<br>• **Cyngor Hil Cymru yng Ngogledd Cymru, yn cynorthwyo ac eirioli dros Gymru fwy Cyfartal**<br>• **Cais Dinas Diwylliant Wrecsam**<br>• **Deall Hunan ac Eraill** | gysylltu/Prifysgol Glyndŵr Wrecsam<br><br>**Lyndsey Rawlinson**, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Ddwyrain Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>**Dr. Tolani Somoye**, Cyngor Hil Cymru (Swyddog Ymgysylltu Celfyddydau Hanes Du Cymru Gogledd Cymru).<br><br>**Craig Colville, Stephen Kenyon-Owen ac Emily Reddy**, Cais Dinas Diwylliant Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br><br>**Shefali Sharma**, Hyfforddydd ac Ymarferydd MBTI |
| 20/04/22 | **Sut i Feddwl Fel Arbenigwr Cyfathrebu (Cynnig a hybu eich prosiect)** | **Simon Williams**, 'Communicating Causes'', Prifysgol Caerdydd |
| 04/05/22 | **Y 5 dull o weithio ar waith** | **Petranka Malcheva,** Dadansoddydd Newid (Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Pholisi) |
| 18/05/22 | **Sut mae Cymru'n Gweithio** | **Rhodri ap Owen**, Partner Rheoli a Chydberchennog, Camlas |
| 30/05/22 | **Diwrnod i ffwrdd yng Nghasnewydd yn cynnwys:**<br>• **Rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd a Gwent**<br>• **Sut mae Dŵr Cymru'n datblygu prosiectau cymunedol seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**<br>• **Cydweithredu, rhannu a chefnogi ar gyfer Cynlluniau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | **Sion Griffiths**, Dŵr Cymru; **Shahinoor Alom**, Cyngor Mwslimaidd Cymru<br><br>Aelodau tîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>**Jacob Ellis**, Arweinydd Ysgogi Newid: Materion Cyhoeddus a Rhyngwladol; **Petranka Malcheva**, Dadansoddydd Newid (Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Pholisi)<br>**Claire Rees**<br>Arweinydd Cyfryngau; **Louisa Neale**, Arweinydd ysgogi Newid, Pobl a Diwylliant<br>**Heledd Morgan**, Arweinydd Ysgogi Newid<br><br>Cyflwyno cynnwys y Cynllun Gweithredu wedi ei ddarparu gan UpRising. |
| 15/06/22 | **Diwrnod graddio, yn cynnwys:** | **Sophie Howe**, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | • **Anerchiad croeso**<br>• **Prif anerchiad**<br>• **Panel Rhanddeiliad**<br>• **Panel cyfranogwyr** | **Andrew Goodall**, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru<br><br>**Jeremy Evans**, Pennaeth Prosiect 2050, Llywodraeth Cymru<br>**Hywel Woolf**, Rheolwr Gyfarwyddwr Adnoddau Naturiol Costain; **Susie Ventris Field**, Prif Weithredwr, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru<br><br>Siaradwyr/panelwyr **Kiara Sullivan; Laura Truelove; Sabiha Azad; Samer Karrar; Ffion Mitchell; Jia Wei Lee; Huw Williams**<br><br>Gwesteion amrywiol |
| 16/06/22 | **Diwrnod myfyrio yn cynnwys:**<br>• **Cynghori Dŵr Cymru ar eu strategaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hirdymor**<br>• **Grwpiau ffocws cyfoedion, wyneb yn wyneb**<br>• **Cyrchu Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr** | **Anna Humphrey**, Dŵr Cymru<br><br>Cynnwys wedi ei ddarparu gan UpRising |





Uchod: Y garfan gyda'i gilydd ar gyfer cwrs preswyl yr Academi yn Wrecsam ym mis Ebrill 2022.

## Adeiladu Cymuned

Drwy gydol y broses o gyflwyno rhaglen 2021-22, ymsefydlodd yr Academi nifer o weithgareddau a chyfleoedd i annog y garfan i fondio, rhannu a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Cynhaliwyd y rhaglen trwy gyfuniad o ddarpariaeth ddigidol ac wyneb yn wyneb, gyda gofod dysgu digidol a llwyfan cyfathrebu'n cael eu defnyddio trwy gydol y rhaglen i ymgysylltu â chyfranogwyr, rhannu gwybodaeth ac adnoddau, ac annog adeiladu cymunedol.

Roedd y llwyfannau digidol yn hwyluso cyfathrebu a rhannu ar gyfer 42 aelod o'r garfan a thîm y rhaglen, gyda 3875 o negeseuon yn cael eu hanfon ar draws 33 sianel/maes pwnc yn amrywio o Wybodaeth Gyffredinol, Adnoddau Sesiynau, Cwestiynau i Siaradwyr a Chlwb Llyfrau.




Uchod: Y garfan a thîm yr Academi mewn sesiwn rhaglen a hwyluswyd ar Zoom.


## Llwyfannau cyfathrebu

Yn ystod eu hamser ar y rhaglen, gwnaeth cyfranogwyr ymgysylltu ag amrywiaeth o lwyfannau cyfathrebu gwahanol gan hwyluso sgyrsiau rhwng aelodau o'r garfan a thîm yr Academi. Roedd y rhain yn cynnwys Zoom ar gyfer hwyluso digwyddiadau ar-lein a sesiynau rhaglen, a Slack a WhatsApp ar gyfer hwyluso cyfathrebu. Roedd gan y garfan hefyd fynediad i Hwb Dysgu a gynhaliwyd ar y llwyfan Notion. Hwylusodd yr Hwb hwn y broses o rannu dogfennau rhaglen, adnoddau a’r amserlen gyda chyfranogwyr, y gellir eu cymharu â Mewnrwyd.

*Isod wele sgrinlun o lwyfan cyfathrebu Slack a ddefnyddiodd yr Academi i hwyluso cyfathrebu*.




Isod wele giplun o'r Hwb Dysgu a ddefnyddiodd yr Academi i rannu adnoddau a gwybodaeth gyda'r garfan.




### Cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol

Ar wahân i fannau ffurfiol, rhoddwyd amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol hefyd i alluogi cyfranogwyr i ddod i adnabod ei gilydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Murlun torri'r garw a rhwydweithio
- Cwis ar-lein Dydd Gŵyl Dewi
- Clwb llyfrau ar-lein ar gyfer rhannu darlleniadau a myfyrdodau
- Anogwyd y cyfranogwyr i deithio gyda'i gilydd mewn grwpiau bach pryd bynnag yr oedd angen teithio

- Pryd bwyd a chyngerdd gyda'r nos ac yna carioci dewisol yn Wrecsam
- Brecwast yn Wrecsam
- Pryd bwyd gyda'r nos yng Nghasnewydd
- Diodydd a phryd bwyd ar ôl Graddio



Uchod: Aelodau o'r garfan a thîm yr Academi yn cymdeithasu ym Mae Caerdydd ym mis Mehefin 2022.

### Dysgu

Y gair Cymraeg am 'teach' yw 'addysgu' a'r gair Cymraeg am 'learn' yw 'Dysgu'.
Ym mhob sesiwn, cynigiodd yr Academi gyfle i unigolion o fewn y garfan rannu gwybodaeth amdanynt eu hunain. Roedd sgyrsiau 'dysgu' yr Academi yn cynnwys slot byr (3 munud ar y mwyaf) ar ddechrau sesiwn yr Academi, lle cymerodd aelodau'r garfan eu tro fel unigolion i rannu rhywbeth gyda gweddill y grŵp. Gallai hyn fod wedi bod yn fynegiant o'u mewnwelediad i'w persbectif unigryw, cipolwg ar eu rôl, neu diwtorial byr neu rannu sgil am rywbeth yr oeddent yn teimlo'n angerddol amdano.

Bwriad y sesiynau byr hyn oedd cysylltu'r garfan, hwyluso rhannu sgiliau a gwybodaeth o fewn y garfan, tra hefyd yn galluogi unigolion i ddatblygu sgiliau siarad cyhoeddus, cyflwyno a chyfathrebu.

Cynhaliwyd cyfanswm o 23 o sgyrsiau Dysgu. Roedd y themâu yn cynnwys:

- Y model cymdeithasol a Hawliau Anabledd a chyfiawnder yng Nghymru
- Gweithio deinamig a gweithio wythnos fyrrach
- Cipolwg ar fod yn fenyw ifanc Fwslimaidd sy'n mynychu Prifysgol
- Ffermio fertigol

- Cyflwyniad i feddylgarwch
- Rhannu 'wyau Pasg' anhygoel yr oedd cyfranogydd wedi dod ar eu traws wrth deithio o amgylch y byd
- Cipolwg ar yr ymgyrch a ddechreuwyd yn 2008 i ffurfio Sefydliad neu Academi Heddwch yng Nghymru
- Cydbwysedd gwaith/bywyd a hyfrydwch byw yn syml

Mae llawer o'r effaith a gofnodwyd uchod yn adran 2. - ar gyfer cyfranogwyr - yn ymwneud yn uniongyrchol â'r sesiynau hyn, yn yr un modd â theithiau'r cyfranogwyr unigol, sy'n nodi bod sesiynau Dysgu'r Academi wedi hwyluso meithrin perthnasoedd, deall a pharchu profiadau a chefndiroedd gwahanol bobl a rhannu sgiliau a gwybodaeth.

# 5. Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr

Ar ôl cwblhau rhaglen Academi 2022, mae Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol bellach yn 50+ o aelodau.

Ar ôl i gyfranogwyr yr Academi raddio, gwahoddwyd yr holl gyfranogwyr i ymuno â Rhwydwaith y Cyn-fyfyrwyr. Mae'r Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan dîm yr Academi gydag ymgyfraniad agos gan gyn-fyfyrwyr, a gwahoddwyd pob un ohonynt i fod yn rhan o bwyllgor trefnu.

Mae gweithgarwch presennol yn cynnwys:

- Datblygu'r Cytundeb Ymrestru presennol
- Datblygu Cylch Gorchwyl
- Datblygu Egwyddorion ar gyfer Ymgysylltu
- Cynllunio digwyddiad wyneb yn wyneb ar gyfer cyn-fyfyrwyr



Uchod: Grŵp o gyfranogwyr yn cyd-gysylltu mewn digwyddiad cymdeithasol yn Wrecsam ym mis Ebrill 2022.

# 6. Datblygiad rhaglen

## Ymarfer y pum dull o weithio

Mae'r tabl isod yn rhannu dadansoddiad ac enghreifftiau o'r modd y cafodd y rhaglen ei datblygu a'i chyflwyno drwy'r pum dull o weithio a amlinellir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

| Dulliau o Weithio | Dadansoddiad | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **Hirdymor** | Bu datblygu'r rhaglen a'r cwricwlwm gyda strwythur ariannu o flwyddyn i flwyddyn yn heriol. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'r Academi wedi llwyddo i osod sylfeini ar gyfer datblygiad hirdymor trwy ystod o wahanol elfennau rhaglen y mae cynaliadwyedd yn rhan annatod ohonynt. | ● Datblygu arweinwyr ifanc, gan sicrhau bod arweinwyr Cymru'r dyfodol yn cael eu hyfforddi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>● Mentora o Chwith - lle mae cyfranogwyr yn rhyngweithio gydag arweinwyr cyfredol i ddylanwadu ar wneud newidiadau heddiw<br>● Cynlluniau Gweithredu - lle mae cyfranogwyr yn datblygu syniadau ar gyfer newid cynaliadwy o fewn eu sefydliad neu gymuned<br>● Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr – annog oes hwy i'r Academi yn dilyn diwedd rhaglenni unigol<br>● Cyfranogwyr o amrywiaeth o sectorau, cefndiroedd a sefydliadau<br>● Mentora o Chwith<br>● Cynlluniau Gweithredu Unigol<br>● Grŵp Cynghori'r Academi<br>● Sefydliadau, yn cynnwys y sector preifat, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn cynnwys partneriaid cyflawni a phartneriaid bwrdd |
| **Cydweithredol** | Gweithiodd yr Academi'n galed i ymgysylltu ac ymarfer cydweithredu gydag ystod eang o sectorau, sefydliadau ac unigolion drwy gydol y broses o ddatblygu a chyflwyno'r Academi, ond gellir gwella hyn o | |

| | | |
|---|---|---|
| | hyd drwy ddatblygu cydweithredu gyda mentrau arweinyddiaeth ieuenctid eraill yng Nghymru a thu hwnt, a datblygu model cynaliadwy ar gyfer cydweithio parhaus rhwng cyn-fyfyrwyr, eu sefydliadau, cymunedau a thîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | |
| **Ymgyfraniad** | Adeiladodd yr Academi ddamcaniaeth ac ymarfer Ymgyfrannu i mewn i sawl agwedd ar y cwricwlwm a chyflwyniad rhaglen, gan gynnwys gweithdy penodol a ddarparwyd gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | ● Roedd y templed Cynllun Gweithredu a ddarparwyd gan yr Academi ar gyfer cyfranogwyr yn rhoi pwyslais sylweddol ar unigolion yn ennyn ymgyfraniad eu cymunedau a rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r syniad.<br>● Mae'r Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr yn cael ei redeg trwy gefnogi cyn-fyfyrwyr i arwain a darparu'r rhwydwaith i'w gilydd ac er mwyn ei gilydd |
| **Integreiddio** | Gwnaethpwyd ymdrech dda i sicrhau bod Cynlluniau Gweithredu Academi'r cyfranogwyr yn cael eu cynllunio a'u datblygu i gael eu hintegreiddio'n dda i amcanion eu sefydliad neu eu cymunedau. Gwnaeth tîm yr Academi ymdrechion eleni i integreiddio'r Academi yn well i waith ehangach Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fodd bynnag gellir gwneud mwy i wella hyn wrth symud ymlaen i alinio dyddiadau allweddol calendrau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chalendrau'r Academi yn well. | ● Datblygwyd Cynlluniau Gweithredu i Gyfranogwyr alinio ag amcanion eu sefydliadau<br>● Cyfranogwyr yn gweithio gyda gweithgorau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ehangach<br>● Aelodau tîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cefnogi datblygiad Cynlluniau Gweithredu cyfranogwyr |
| **Ataliol** | Adeiladodd yr Academi ddamcaniaeth ac ymarfer Atal i mewn i lawer o feddylfryd a chynllun yr Academi, gyda'r cysyniad o uwchsgilio a hyfforddi arweinwyr ifanc yn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol i atal arweinwyr y dyfodol yng Nghymru rhag esgeuluso neu | ● Roedd y templed Cynllun Gweithredu a ddarparwyd gan yr Academi ar gyfer cyfranogwyr yn rhoi pwyslais sylweddol ar unigolion yn ennyn ymgyfranaid eu cymunedau a rhanddeiliaid |

| | | |
|---|---|---|
| | edrych ar y Ddeddf fel ymarfer blwch ticio. Roedd y ffordd hon o weithio hefyd wedi'i chynnwys yn y templed ar gyfer Cynlluniau Gweithredu cyfranogwyr. | allweddol wrth ddatblygu'r syniad<br><br>● Roedd yr holl arlwyo ar gyfer digwyddiadau'r Academi yn Llysieuol neu'n Fegan |

# 7. Argymhellion ar gyfer rhaglenni'r dyfodol

Isod wele argymhellion UpRising ar gyfer unrhyw raglenni Academi yn y dyfodol a ddatblygir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

**Noddwyr/codi arian**

● Dylai'r Academi ymdrechu i gael amserlen prosiect tymor hwy, gan recriwtio noddwyr am ddwy neu dair blynedd o raglenni i ganiatáu datblygiad arwyddocaol.
● Dylai'r Academi wneud ymdrech i ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt yn gysylltiedig â sefydliad - er enghraifft entrepreneuriaid neu weithwyr llawrydd - a dod o hyd i ffordd o ariannu cynrychiolwyr o'r fan hon. Opsiwn posibl fyddai noddi eu cyfranogiad yn yr un modd ag yr anogwyd sefydliadau trydydd sector i gynnig cynrychiolwyr.
● Dylai'r Academi barhau i gynnig nawdd i bobl ifanc sy'n gweithio yn y trydydd sector, ond dylai hyn fod yn fwy hygyrch i wahanol sefydliadau trydydd sector wneud cais amdano.
● Adeiladu'r gyllideb i gynnal Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr rhagorol yn effeithiol yn y contractau ar gyfer sefydliadau noddi - dyma'r buddsoddiad allweddol y mae sefydliadau'n ei wneud.
● Dylai'r Academi roi gwell ystyriaeth i amserlen cyfarfodydd y Grŵp Cynghori i gyd-fynd â cherrig milltir allweddol yng nghalendr darparu'r rhaglen er mwyn sicrhau y gellir ystyried a gweithredu mewnbwn ac adborth y grwpiau yn fwy effeithiol.

**Recriwtio**

- Dylai'r Academi ystyried chwarae rhan yn y rhestr fer derfynol o ymgeiswyr sy'n cael eu recriwtio drwy sefydliadau partner er mwyn cyflawni carfan mor amrywiol â phosibl. Fel arall, dylid rhoi arweiniad mwy trylwyr i sefydliadau partner ar recriwtio eu cynrychiolwyr.
- Neilltuo amser digonol ar gyfer recriwtio agored er mwyn caniatáu ar gyfer lledaenu ac ymgysylltu'n ehangach â gwahanol bobl ifanc a chynulleidfaoedd.
- Dylai'r Academi ystyried yn fwy gofalus gofrestriad cyfranogwyr sy'n dod trwy recriwtio agored i ennill cefnogaeth ffurfiol a llinellau cymorth a chyfathrebu clir gyda'u cyflogwyr, yn benodol rheolwyr llinell ac uwch arweinwyr. Gellid gwneud hyn drwy ddatblygu'r 'Cytundeb i Gyflogwyr' sy'n cael ei greu ar hyn o bryd ar gyfer cyn-fyfyrwyr.

**Cwricwlwm**

- Ystyried pa elfennau o'r cwricwlwm sydd yn y lle gorau o fewn rhaglen ffurfiol yr Academi a pha rai y gallai cyn-fyfyrwyr wneud cais amdanynt (e.e. gallai'r

modiwlau Cynllun Gweithredu a Mentora o Chwith fod
yn rhaglenni ar wahân a gynigir yn rheolaidd i aelodau Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr).

- Dylunio cwricwlwm yr Academi i fod yn ddysgeidiaeth sylfaenol ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r dulliau o weithio.
- Trefnu bod gweithdy/segment o'r daith ddysgu wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer dadbacio ac ymarfer arweinyddiaeth o amgylch POB un o'r nodau a dulliau o weithio. Byddai hyn yn cefnogi datblygiad cyson cyfranogwyr ar draws pob un o'r meysydd hyn beth bynnag fo'u cefndir neu wybodaeth/arbenigedd blaenorol.
- Sicrhau mwy o brif siaradwyr o bob rhan o Gymru a'r byd i siarad â, rhannu gyda ac ysbrydoli arweinwyr yr Academi yn y dyfodol.
- Dylid ystyried yn fwy gofalus yr holl Nodau Llesiant, ond yn arbennig y nod 'Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang' wrth ddatblygu'r cwricwlwm gan mai dyma'r nod yr oedd y garfan yn lleiaf hyderus yn ei chylch erbyn diwedd y rhaglen, ond hefyd y nod y cyfeiriodd llawer ato wrth fynegi ei hawydd i weld Cymru fel esiampl dda ar lefel byd-eang.
- Byddai'r Academi'n elwa o alw ar Rwydwaith y Cyn-fyfyrwyr i gyfrannu at ddatblygiad y cwricwlwm ac amserlennu rhaglenni'r dyfodol.

## Cyflawni

- Gwneud Rhwydwaith y Cyn-fyfyrwyr yn ganolbwynt pob un o raglenni'r Academi.
- Blaenoriaethu darpariaeth wyneb yn wyneb ar ddechrau'r rhaglen er mwyn galluogi cyfranogwyr i gysylltu â'i gilydd yn gyflymach.
- Parhau i flaenoriaethu'r amser a'r adnoddau a neilltuwyd i adeiladu cymuned.
- Mae potensial sylweddol, nad yw'r Academi'n manteisio arno ar hyn o bryd, ar gyfer cydweithredu, rhannu a rhwydweithio gyda mentrau arweinyddiaeth ifanc eraill ledled Cymru, megis byrddau cynghori ieuenctid a lleisiau ieuenctid, Senedd Ieuenctid Cymru a mentrau penodol i sefydliadau megis Cynlluniau Llysgenhadon Ifanc Cymru Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellid archwilio hyn yn fwy trwyadl trwy recriwtio cyfranogwyr neu ymgysylltu â Rhwydwaith y Cyn-fyfyrwyr.

## Monitro, Gwerthuso a Dysgu

- Dylid rhoi blaenoriaeth i archwilio effaith rhaglenni'r Academi hyd yma ar sefydliadau unigol sydd wedi ymgysylltu â'r prosiect er mwyn deall yn well beth yw effaith bresennol a phosibl yr Academi ar dirwedd arweinyddiaeth ehangach Cymru a gweithredu'rDdeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Mae'r dulliau a'r mathau amrywiol o gasglu data wedi bod yn hynod werthfawr wrth gefnogi Monitro, Gwerthuso a Dysgu rhaglen yr Academi hon. Dylid parhau â hyn a chael adnoddau priodol i sicrhau datblygiad pellach ar gyfer gweithgareddau'r Academi yn y dyfodol, gan gynnwys gweithredu fframwaith dreigl Monitro Gwerthuso a Dysgu effeithiol ar gyfer Rhwydwaith y Cyn-fyfyrwyr.

# 8. Atodiadau

**Atodiad 1**: Rhestr lawn o'r 25 sefydliad gyda phobl ifanc a wnaeth gymryd rhan

1. Academi Heddwch Cymru (dan ofal Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol
2. Arup
3. BBC Cymru
4. Capital Law Limited
5. Costain
6. Bwrdd Prifysgol Cwm Taf Morganwwg
7. Cyngor Celfyddydau Cymru
8. Anabledd Cymru
9. Cymdeithas Cadwraeth Forol
10. Menter Môn
11. Cyfoeth Naturiol Cymru
12. Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
13. Canolfan Prosiect
14. Iechyd Cyhoeddus Cymru
15. Cynghrair Hil Cymru
16. Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
17. Cronfa Gymunedol Loteri Genedlaethol
18. Trafnidiaeth Cymru
19. Gwasanaeth Sifil Llywodraeth y DG
20. Prifysgol De Cymru
21. Arweinyddiaeth UpRising
22. Plant y Cymoedd
23. Canolfan Mileniwm Cymru
24. Llywodraeth Cymru
25. Cymorth i Fenywod Cymru

**Atodiad 2**: Rhestr lawn o Fentoreion o Chwith (uwch arweinwyr)

Roedd y Mentoreion o Chwith yn cynnwys:

- Rheolwr Gyfarwyddwr Adnoddau Naturiol Costain
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Prif Swyddog Gweithredol Dŵr Cymru
- Prif Weithredwr Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru
- Pennaeth Oxfam Cymru
- Cyfarwyddwr Busnes yn y Gymuned
- Prif Weithredwr Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
- Prif Swyddog Gweithredu Cymdeithas Adeiladu'r Principality
- Prif Weithredwr Awdurdod Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- Dirprwy Is-Ganghellor Emeritws, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin
- Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyfarwyddwr Cynnal Cymru
- Swyddog Cyfranogiad ar gyfer Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
- Prif Swyddog Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Prif Weithredwr Cyngor Caerdydd
- Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru
- Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru
- Sylfaenydd Cyngor Hil Cymru
- Cyfarwyddwr Strategaeth – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Prif Weithredwr Chwarae Teg.
- Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
- Prif Weithredwr Cymdeithas Bêl-droed Cymru
- Prif Weithredwr Grŵp TYF
- Prif Swyddog Llywodraethu Cymdeithas Adeiladu'r Principality
- Cyfarwyddwr Cynghrair Llesiant yr Alban

**Atodiad 3:** <u>Rhestr lawn o hwyluswyr rhaglen a siaradwyr gwadd</u>

1. Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru
2. Anna Humphrey, Dŵr Cymru
3. Christian Servini, Ysgogydd Newid Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
4. Claire Rees, Arweinydd Cyfryngau, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
5. Craig Colville, Cais Dinas Diwylliant Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
6. Dan Tran, Cyn-fyfyriwr yr Academi
7. Dominic Francis, Cyfathredbu Digidol, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
8. Dr. Tolani Somoye, Cyngor Hil Cymru (Swyddog Ymgysylltu Celfyddydau Hanes Du Cymru, Gogledd Cymru).
9. Eleri Williams, Cyfartaledd, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
10. Emily Reddy, Cais Dinas Diwylliant Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
11. Emily-Rose Jenkins, Cyn-fyfyrwraig yr Academi
12. Eurgain Powell, Ysgogydd Newid, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

13. Gethin Morgan, Rheolwr Busnes a Rhaglen, Cyngor Sir Ynys Môn
14. Heledd Morgan, Arweinydd Ysgogi Newid, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
15. Helen Goddard, Rheolwr Treftadaeth a Diwylliant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
16. Hywel Woolf, Rheolwr Gyfarwyddwr Adnoddau Naturiol Costain
17. Jacob Ellis, Arweinydd Ysgogi Newid: Materion Cyhoeddus a Rhyngwladol, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
18. Jane Hutt MS, Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol
19. Jeremy Evans, Pennaeth Prosiect 2050, Llywodraeth Cymru
20. Jonathan Tench, Ysgogydd Newid Partneriaethau a Rhwydweithiau Rhyngwladol, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
21. Katherine Trebeck, cyd-sylfaenydd Cynghrair Economaidd Llesiant
22. Libbi Prestidge, Uwch-swyddog Datblygu Rhaglen, UpRising
23. Louisa Neale, Arweinydd Ysgogi Newid Pobl a Diwylliant Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
24. Lyndsey Rawlinson, Pennaeth Gweithgareddau Gogledd Ddwyrain Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru
25. Marie Brousseau-Navarro, Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
26. Meghan Causer, Uwch Swyddog Darparu Rhaglen UpRising
27. Mike Corcoran, Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu/Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
28. Najma Hashi; Ysgogydd Newid Cynorthwyol, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
29. Nisani Gnanasoorian, Swyddog Darparu Rhaglen, UpRising
30. Noreen Blanluet, Cyd-gynhyrchu Cymru
31. Olivia Hughes, Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint;
32. Petranka Malcheva, Dadansoddwr Newid (Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Pholisi)
33. Rhodri ap Owen, Partner Rheoli a Chyd-berchennog, Camlas
34. Sandy Clubb, Artist Ymgyfrannu, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
35. Shahinoor Alom, Cyngor Mwslimiaid Cymru.
36. Shefali Sharma, Hyfforddydd ac Ymarferydd MBTI
37. Simon Williams, Communicating Causes, Prifysgol Cymru
38. Sion Griffiths, Dŵr Cymru;
39. Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
40. Stephen Kenyon-Owen, Cais Dinas Diwylliant Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
41. Susie Ventris Field, Prif Weithredwr, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

## Atodiad 4: <u>Nodiadau grwpiau ffocws cymheiriad carfannau ôl-raglen</u>

**C1 - Pam wnaethoch chi ymuno, beth oedd eich disgwyliadau, a ydynt wedi'u bodloni eto?**

Grŵp 1:

- Ymunais oherwydd ein bod yn un o'r partneriaid; roedd yn swnio'n ddiddorol, o leiaf yn ddatblygiad proffesiynol da. Bodlonwyd disgwyliadau (disgwyliais ddysgu mwy am y Ddeddf, rhwydwaith, cyfle da i ddatblygu).
- Derbyniais e-bost amdano ac roeddwn eisoes wedi bod yn darllen am y Ddeddf. Cyflawnais y broses fewnol heb feddwl y byddwn i'n ei chael, gan fy mod yn newydd i'm swydd. Heb ddisgwyliadau / disgwyliadau isel a dweud y gwir, gan nad oeddwn yn gwybod beth roeddwn i'n ei wneud, felly rhagorwyd ar fy nisgwyliadau.
- Argymhellwyd gwneud cais gan yr elusen km, elusen yr wyf yn gweithio gyda hi. Dim disgwyliadau, heb ddarllen llawer am y rhaglen, felly rhagorwyd ar y disgwyliadau.
- Cydnabod yr Academi fel cyfle gwych ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithio. Roedd fy nisgwyliadau yn uchel e.e. cyfle i gyfarfod a gweithio gydag eraill, dylanwadu ar wneud penderfyniadau, ac ati; yn teimlo bod disgwyliadau wedi'u bodloni rywfaint ond y byddwn wedi gwerthfawrogi mwy o gyfle i gael effaith eglurach yn ystod yr Academi

Grŵp 2:

- Cyfle da, rhwydwaith cyn-fyfyrwyr, ymgeisiodd rhai ohonom ar y funud olaf ac roeddem eisiau dysgu am y ddeddf a sut i'w rhoi ar waith. Roedd profiadau personol wrth dyfu i fyny mewn ardaloedd "dirywiedig" yn golygu ein bod ni eisiau dysgu sut i gymhwyso'r ddeddf i wella lleoedd fel hyn. Gofynnodd ein cydweithwyr i rai ohonom ymuno, ac roeddem eisiau creu llawer o rwydweithiau a chysylltiadau. Gwyddwn bod cyn-fyfyrwyr wedi mynd ymlaen i gael profiadau cŵl iawn. Roedd rhai ohonom yn teimlo bod angen mwy o gefnogaeth arnom, yn gynnar. Roedd rhai a ymunodd yn ddiweddarach yn teimlo nad oeddem yn adnabod llawer o bobl o'r cyfnod cynnar - roedd hi'n anodd ymdopi â rhai o'r ymrwymiadau amser. Roedd Wrecsam yn amser allweddol ar gyfer dod i adnabod aelodau eraill o'r academi, a byddai'n well gennym petaem wedi cyfarfod â'n gilydd yn gynt

Grŵp 3:

- Cyfle i ymgysylltu â chyrff cyhoeddus sy'n dod o'r sector preifat
- Anogwyd fi gan yr uwch reolwr i wneud cais - edrych ymlaen at gwrdd â phobl o wahanol sefydliadau
- Cyfle i gynyddu gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynyddu sgiliau arwain
- Rhagorwyd ar ddisgwyliadau – Nid oeddwn wedi sylweddoli pa mor werthfawr fyddai'r rhwydwaith a'r cysylltiadau
- Mae sylweddoli y gallwn fod yn arweinwyr a chael dylanwad wedi bod yn bwysig
- Mae mentora o chwith wedi bod yn bwysig

Grŵp 4:

- Anogaeth gan y rheolwr i gymryd rhan ar gyfer datblygiad personol
- Dilyn Sophie Howe a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Yn adnabod cyn-fyfyriwr a gafodd brofiad cadarnhaol
- Wedi'i ganfod trwy recriwtio agored
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn berthnasol i fy ngwaith
- Roedd yn anodd cael cytundeb gan y gwaith
- Wedi'i ganfod ar y fewnrwyd
- Mae atal yn allweddol yn fy rôl, felly cefais fy nenu gan hynny
- Dim disgwyliadau, diddordeb yn y broses ddysgu
- Hysbysebwyd ar fewnrwyd gwaith
- Diddordeb yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy waith. Eisiau dysgu mwy amdani
- Roedd gen i ddiddordeb mewn dod o hyd i 'niche' broffesiynol i mi fy hun

**C2 - Pa un o'r nodau/Dulliau o Weithio ydych chi'n fwyaf hyderus yn eu cylch yn awr? A oes unrhyw rai nad ydych yn glir yn eu cylch/yn hyderus wrth siarad amdanynt?**

Grŵp 1:

- Bob amser yn eithaf hyderus yn siarad amdanynt yn seiliedig ar yr hyn yr wyf yn ei wneud ar gyfer gwaith, yn fwyaf hyderus yn siarad am Gymru gyfartal. Mwy hyderus wrth weithio ar draws y nodau yn hytrach na chanolbwyntio ar un unigol.

- Cydweithio ac ymgyfraniad yw'r Dulliau o Weithio sydd gryfaf i mi ar hyn o bryd ac rwy'n teimlo'n fwy hyderus i alw ar eraill i ymgyfrannu a chreu cyd-gysylltedd. Dal angen gweithio ar sut i gyflawni fy nodau fy hun. Buaswn wedi gwerthfawrogi mwy o drafodaeth am sut olwg fyddai ar Gymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang. Heblaw am hynny, yn hyderus.

- Hyderus gyda'r holl ffyrdd o weithio. Gallwn fod wedi canolbwyntio mwy ar y Nodau, efallai hyd yn oed sesiwn ar bob un, gan fod gan bawb, yn nodweddiadol, gefndir arbenigol mewn un neu ddau nod yn unig. Heb drafod na rhoi sylw i Gymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang, na chysylltiadau rhyngwladol.

Grŵp 2:

- Hyderus gydag Ymgyfrannu, ond wedi drysu gyda'r gwahaniaethau rhwng integreiddio a chydweithio. Mae rhai yn teimlo ein bod ni'n dal i gael trafferth i restru'r nodau. Nid oedd y sesiynau ar-lein, a oedd yn teimlo'n eithaf damcaniaethol, bob amser yn aros gyda ni, hoffem gael mwy o brofiad o gymhwyso'r ddeddf yn ymarferol. Roeddem wir yn teimlo bod sesiwn Dŵr Cymru yn bleserus. Yn y dyfodol, a allai'r cynlluniau gweithredu fod yn seiliedig ar broblemau a gyflwynir gan y sefydliadau nawdd, gydag aelodau'r academi yn cydweithio mewn grwpiau bach i ddod o hyd i'r datrysiadau. Gallai sefydliadau nawdd roi cynllun gweithredu ar waith gyda'r academi'n parhau i gefnogi.

Grŵp 3:

- Nodau:
- Dod yn fwy hyderus am Gymru lewyrchus a deall bod datgarboneiddio yn ffitio yma, a pha mor bwysig yw hyn.
- Cydweithio ar gynlluniau gweithredu – canolbwyntio ar Gymru gydnerth a'r hyn y mae'n ei olygu mewn gwirionedd

- Mae'r nodau'n teimlo'n fwy abl i newid y modd yr ydych chi'n gweithio na'r dulliau o weithio – mae darllen y ddeddf yn newid y ffordd rydych chi'n meddwl

Dulliau o weithio:

- Yn gyfforddus gyda phob un ohonynt ond ymgyfrannu yw'r anoddaf i'w weithredu
- Anoddaf oedd gwahaniaethu rhwng ymgyfraniad a chydweithio
- O fewn fy rôl mae'n anodd cydweithio ac ymgyfrannu – hoffwn weithio ar hyn ymhellach mewn cynlluniau gweithredu

Grwp 4:

- Cymru lewyrchus ac iach
- Wedi'i gynnwys ym mhopeth a wnawn
- Mae cynllun llysgenhadon ifanc yn Iechyd Cyhoeddus Cymru'n rhoi llais i bobl ifanc
- Cymru fwy cyfartal
- Pob nod wedi'i gysylltu mewn dull cynhenid
- Cymru Iachach a Chymunedau Cydlynol
- Wedi dysgu faint o gydweithio all ddigwydd rhwng gwahanol sefydliadau a phobl
- Cymunedau cydweithredol a chydlynol trwy drafodaeth
- Cymru lewyrchus a hefyd yn gyfrifol yn fyd-eang
- Er mwyn i Gymru fod yn llewyrchus mae'n rhaid i ni edrych tuag allan
- Rhaid edrych allan i fod yn llewyrchus, e.e. ffoaduriaid
- Teimlo'n falch o fod yn Gymreig pan fyddwn yn helpu eraill
- Gall y rhai rydym yn eu helpu fod yn gymwynaswyr
- Nid yw ffyrdd o weithio yn chwyldroadol ond maent mor bwysig
- Mae'n ymwneud â sut rydych chi'n eu defnyddio a'u defnyddio gyda'ch gilydd
- Dim ond pan fyddwch chi'n defnyddio pob un o'r 5 Dull o Weithio ydych chi wir yn byw'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Mae cysylltiad cynhenid rhwng nodau a Dulliau o Weithio
- Gall defnyddio'r rhain yn gywir newid meddyliau, ymddygiad a chanlyniadau
- Cwmnïau'n hyblyg, yn barod i ddysgu

**C 3 Beth sydd ei angen arnoch chi, fel grŵp o bobl, i gefnogi eich momentwm a'ch dymuniadau wrth symud ymlaen?**

Grŵp 1:

- Cynnal cyfarfod personol blynyddol o holl garfanau'r Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys aelodau newydd o'r garfan a staff Cenedlaethau'r Dyfodol, a phartneriaid eraill â diddordeb. Byddai'n cŵl cael E-gylchlythyr chwarterol ar gyfer yr Academi, yn amlygu'r hyn y mae cyn-fyfyrwyr wedi bod yn ei wneud, ac hysbysebu cyfleoedd i gydweithio. Byddem yn gwerthfawrogi cysylltiad anffurfiol â'r Swyddfa; ddim eisiau teimlo ein bod wedi ein 'hanghofio'. Byddem yn gwerthfawrogi cyfathrebu gan y Swyddfa ar gyfleoedd i gefnogi'r Swyddfa'n uniongyrchol hefyd, a'u gwaith. Byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymuno mewn mwy o sgyrsiau, gweithdai ac ati i barhau gyda'n dysgu a'n datblygiad proffesiynol.

Grŵp 2:

- Cysylltiad lled-gyson fel grŵp?  Sesiynau galw mewn chwarterol neu hyd yn oed fisol? Caniatáu i bobl weithio yn swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol ambell i ddiwrnod i helpu i ddatrys problemau ar y cyd. Mae cael awdurdod y swyddfa tu cefn i'n rolau yn bwysig iawn er mwyn caniatáu i ni newid yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Hoffem drafod rhai o'n heriau gyda'r tîm ehangach, os ydy hynny'n bosibl. Grŵp Cenedlaethau'r Dyfodol Linkedin?

Grŵp 3:

- Mwy o gyfleoedd i gyfarfod wyneb yn wyneb.
- O safbwynt sector preifat – cefnogaeth oddi wrth dîm yr academi i sicrhau bod cynlluniau gweithredu'n cael eu sefydlu
- Cefnogaeth gan dîm cenedlaethau'r dyfodol i ddilysu ein persbectifau o fewn ein sefydliadau
- Rhannu gwybodaeth, cyfleoedd, beth mae cyn-fyfyrwyr wedi bod yn ei wneud

Grŵp 4:

- Cyfathredbu agored
- Cymorth, pwynt cyswllt, rhywun ar lefel uwch i'n cefnogi
- Fforwm i wrando arno
- Gweithio gydag eraill sydd eisau gweld newid
- Torri rhwystrau ac atal cadwyni llinol o gyfathrebu

**C4 – Beth rydych chi'n ei ddisgwyl o'r rhwydwaith cyn-fyfyrwyr? (Y rhwydwaith ehangach, rhyngweithio/ymgyfrannu gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, cyfleoedd, dysgu, gweithredu'r ddeddf)**

- Grŵp 1:

  Rhwydwaith a gydlynir / a reolir yn rhagweithiol, lle mae cyn-fyfyrwyr yn derbyn diweddariadau a chyfleoedd gan y Swyddfa, partneriaid a chymheiriaid ar waith y maent yn ei wneud a chyfleoedd i gydweithio a mewnbwn (gan gynnwys gydag aelodau newydd y garfan). Mater i ni yw cymryd rhan ynddo a chyfrannu ato, ond nid ei reoli na'i redeg. Rydym eisiau parhau i wneud y rhwydwaith yn bleserus, peidio â gadael iddo droi'n fwy o "waith" - yn enwedig os ydyw'n mynd i fod yn wirfoddol.

- Grŵp 2:

  Cyfleoedd rhwydweithio yn helpu i ganfod cysylltiadau pwysig, datrys problemau mewn perthynas â'r ddeddf. Cyfleoedd cŵl i ymuno â byrddau, cynrychioli Cymru ac ati. Ond mae angen parchu gofynion amser. Integreiddio gyda'r cyn-fyfyrwyr presennol.

- Grŵp 3:
  - Byddai'n braf cadw mewn cysylltiad a defnyddio'r rhwydwiath fel dull o neilltuo amser i gynnal cysylltiadau

- Mwy o gyfleoedd i wneud yr hyn a wnaethom gyda Dŵr Cymru heddiw - defnyddio ein gwybodaeth grŵp i gyfrannu i sefydliadau sector cyhoeddus/preifat – ond os yw'r gwaith hwn y tu allan i'n rolau cyflogedig byddai angen digolledu ein hamser
- Cyfleoedd i weithio yn Tramshed Tech, dal i fyny a chynnal momentwm
- Rhannu cyfleoedd dysgu gyda'r grŵp
- Cyfleoedd i gysylltu â chyn-garfannau a rhai'r dyfodol – FB/Grŵp What's APP

- Grŵp 4:
  - Rhwydweithio! Rhwydweithio! Rhwydweithio!
  - Cyfleoedd i ddatblygu
  - Rhagor o brofiadau fel rhai Wrecsam, Canolfan Mileniwm Cymru a Chasnewydd
  - Cyfleoedd ar gyfer ymgynghori gwirfoddol ychwanegol e.e. grwpiau ffocws, llysgenhadon
  - Aros mewn cysylltiad
  - **Dewis i gysylltu a chael syniadau ac arweiniad**
  - **Cynhadledd flynyddol/bob 6 mis**
  - **Parhau i gymysgu â phobl o'r un anian**
  - A fedrai'r rhwydwaith ddod yn sefydliad?